

# Cydlynnydd Cyfarfodydd Cymorth

*Gelwir hyn hefyd yn 'Cyfarfod Cymorth/Hwylusydd Digwyddiadau'*

## Proffil y Rôl

Yn aml yn gysylltiedig â [Changen neu Grŵp Lleol](#), mae Cydlynnydd Cyfarfodydd Cymorth yn helpu i hwyluso digwyddiadau lleol rheolaidd sy'n ymgysylltu â phobl sy'n byw gyda Chlefyd Motor Niwron (MND) a'r rhai y mae'r cyflwr yn effeithio arnynt.

Mae Cydlynwyr Cyfarfodydd Cymorth yn arwain y gwaith o drefnu digwyddiadau cymorth lleol, megis boreau coffi, te prynhawn, cyfarfodydd cymorth, sesiynau galw heibio a mwy, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr lleol eraill.

## Tasgau a gweithgareddau

- Arwain y gwaith o drefnu, hwyluso, hyrwyddo a, lle bo'n bosibl, mynychu digwyddiadau cymorth
- Cydweithio'n agos ag aelodau'r Gangen neu'r Grŵp Lleol i gydweithio a rhannu manylion digwyddiadau
- Cysylltu â chyflenwyr a staff y lleoliad yn ôl yr angen er mwyn cyflwyno'r digwyddiad
- Sicrhau cyfathrebu yn lleol, cyn ac ar ôl y digwyddiad - ee. Gwahoddiadau, adborth, cydsyniadau
- Cydlynu cymorth gwirfoddolwyr ar gyfer digwyddiadau, gan gynnwys Cynorthwyyr Digwyddiadau Cymorth, a'u cefnogi i deimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn eu rôl
- Datblygu a chynnal perthynas gadarnhaol gyda'r gwirfoddolwyr a'r staff eraill
- Cadw at bolisiau a gweithdrefnau Cymdeithas MND, gan gynnwys Diogelu
- Mae'r ymrwymiad amser yn amrywio yn dibynnu ar wahanol ffactorau, gan gynnwys gallu personol ac angen lleol.

Mae'r rôl hon yn cael ei recriwtio drwy ein proses Recriwtio Mwy Diogel, sy'n golygu ei bod yn cynnwys cyfweiliad anffurfiol a dau ganolwr.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cwblhau proses gynefino a chymeradwyo.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael cymorth lleol parhaus gan eu Cydlynnydd Cymorth Cymunedol (CSC) dynodedig.

## Gwybodaeth am ein Cydlynwyr Cyfarfodydd Cymorth

Ar draws y Gymdeithas MND, mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein Gwerthoedd.

### Rydyn ni'n **Un Tim Cryf**

- Rydyn ni'n datblygu ac yn cynnal perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol
- Rydyn ni'n gweithio'n effeithiol gyda'n gilydd ac yn gofyn am help a chefnogaeth pan rydyn ni ei angen
- Rydyn ni'n atebol am ein rôl wrth arwain y gwaith o ddarparu digwyddiadau o safon

### Mae gennym **Syniadau Mawr**

- Rydyn ni'n chwilio am gyfleoedd newydd a chreadigol i gefnogi pobl y mae MND yn effeithio arnynt nhw'n lleol drwy ddigwyddiadau
- Rydyn ni'n ymgymryd â dysgu a datblygu priodol i'n helpu yn ein rôl
- Rydyn ni'n defnyddio sgiliau TGCh i lwyddo - e.e. Microsoft Teams, e-bost, Office 365

### Rydyn ni'n **Benderfynol**

- Rydyn ni'n barod i ddysgu am MND a'i effaith ar bobl a'u teuluoedd



- Rydyn ni'n sicrhau ein bod yn cymryd camau i sicrhau ein diogelwch ein hunain a diogelwch pobl eraill
- Rydyn ni'n deall yr angen am gyfrinachedd a phwysigrwydd diogelu data

Rydyn ni'n gwneud **Y Gorau o Bob Diwrnod**

- Rydyn ni'n hyrwyddo [Gweledigaeth a Phwrpas](#) Cymdeithas MND
- Rydyn ni'n sicrhau bod digwyddiadau'n gynhwysol, yn hygyrch ac yn cael eu cynnal mor rheolaidd â phosibl neu yn ôl yr angen yn lleol
- Rydyn ni bob amser yn barchus ac yn garedig